



Department  
for Environment  
Food & Rural Affairs

2nd Floor,  
Foss House,  
Kings Pool,  
1-2 Peasholme Green,  
YORK  
YO1 7PX

Ffôn: 03459 335577  
helpline@defra.gov.uk  
[www.gov.uk/defra](http://www.gov.uk/defra)

**Dyddiad:** 04 Rhagfyr  
2020

Annwyl Ymgynghorai,

## **Ymgynghoriad ar y ‘Cynllun Gweithredu Cenedlaethol Diwygiedig ar gyfer y Defnydd Cynaliadwy o Blaleiddiaid (Cynhyrchion Diogelu Planhigion)’**

1. Ysgrifennaf i geisio'ch barn ar y diwygiad arfaethedig i'r Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer y Defnydd Cynaliadwy o Blaleiddiaid (y CGC diwygiedig).
2. Ar gyfer yr ymgynghoriad canlynol, mae Llywodraethau'r DU wedi llunio Cynllun Gweithredu Cenedlaethol diwygiedig drafft ar gyfer y Defnydd Cynaliadwy o Blaleiddiaid (drafft y CGC diwygiedig). Nod drafft y CGC diwygiedig yw cynyddu gweithgarwch Rheoli Plâu Integredig a diogelu cnydau'n gynaliadwy, yn unol â Chynllun Amgylchedd 25-mllynedd Defra, Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol Gweinidogion Cymru, Strategaeth yr Amgylchedd yr Alban a nodau Strategaeth yr Amgylchedd Gogledd Iwerddon i ddiogelu a gwella'r amgylchedd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Caiff y CGC ei gyflwyno i gefnogi targedau Llywodraethau ledled y DU ynglŷn â bioamrywiaeth a charbon sero net. Mae Defra a'r gweinyddiaethau datganoledig am ystyried ymhellach farn defnyddwyr plaleiddiaid, diwydiannau sy'n ymwneud â phlaleiddiaid (gan gynnwys bwyd, manwerthu a gweithgynhyrchu), grwpiau'r amgylchedd ac iechyd y cyhoedd, a'r cyhoedd mewn ymdrech i symud ymlaen gyda'n gilydd ar faterion sy'n ymwneud â phlaleiddiaid.
3. At ddibenion rheoli'r ymgynghoriad, Defra fydd y prif bwynt cyswllt. Fodd bynnag, bydd Defra yn gweithio'n agos gyda'r gweinyddiaethau datganoledig drwy gydol y broses ac wrth ddadansoddi'r ymatebion i'r ymgynghoriad.
4. Mae'r ddogfen ganlynol ar gael ar wefan Defra: <https://consult.defra.gov.uk/pesticides-future-strategy/sustainable-use-of-pesticides-national-action-plan>

**a. Ymgynghoriad ar y 'Cynllun Gweithredu Cenedlaethol Diwygiedig ar gyfer y Defnydd Cynaliadwy o Blaleiddiaid (Cynhyrchion Diogelu Planhigion)'**

5. Rydym yn croesawu'ch barn a'ch sylwadau ar y cynigion. Os hoffech gael copi papur o'r ymgynghoriad hwn, cysylltwch â: [pesticides@defra.gov.uk](mailto:pesticides@defra.gov.uk).

### **Ymatebion**

6. Er mwyn cyflwyno'ch ymateb i'r ymgynghoriad, cwblhewch holiadur yr ymgynghoriad drwy Citizen Space (adnodd ymgynghori ar-lein yw Citizen Space). Os nad oes modd ymateb drwy Citizen Space, cysylltwch â: [pesticides@defra.gov.uk](mailto:pesticides@defra.gov.uk), a byddwn yn trefnu dull amgen o ymateb.
7. Dylai ymatebion ddod i law erbyn dydd Gwener 26 Chwefror 2021

### **Meini Prawf yr Ymgynghoriad**

8. Mae'r ymgynghoriad hwn yn unol â'r Egwyddorion Ymgynghori, sydd ar gael yn <https://www.gov.uk/government/publications/consultation-principles-guidance>.
9. Caiff crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn ei gyhoeddi ar wefan y llywodraeth yn: [www.gov.uk](http://www.gov.uk) o fewn 12 wythnos i ddiwedd y cyfnod ymgynghori. Bydd y crynodeb yn cynnwys rhestr o'r sefydliadau a ymatebodd ond nid enwau personol, cyfeiriadau na manylion cyswllt eraill.

### **Cyfrinachedd a diogelu data**

Lluniwyd y ddogfen ymgynghori hon a'r broses ymgynghori i gydymffurfio â'r Egwyddorion Ymgynghori a gyflwynwyd gan Swyddfa'r Cabinet.

Gofynnir i grwpiau cynrychioliadol roi crynodeb o'r bobl a'r sefydliadau y maent yn eu cynrychioli a, lle y bo'n berthnasol, â phwy arall y maent wedi ymgynghori er mwyn dod i'w casgliadau pan fyddant yn ymateb.

Gall gwybodaeth a ddarperir mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn, gan gynnwys data personol, gael ei chyhoeddi neu ei datgelu yn unol â'r cyfundrefnau mynediad at wybodaeth, yn bennaf Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004, Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Deddf Diogelu Data 2018. Mae rhwymedigaethau arnom, yn bennaf o dan Reoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004, Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Deddf Diogelu Data 2018, i ddatgelu gwybodaeth i dderbynyddion penodol neu'r cyhoedd o dan amgylchiadau penodol.

Os hoffech i'r wybodaeth a ddarperir gennych gael ei thrin yn gyfrinachol, byddwch yn ymwybodol, fel awdurdod cyhoeddus, fod yr Adran yn rhwym wrth y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth ac felly efallai y bydd yn ofynnol iddi ddatgelu'r holl wybodaeth rydych yn ei

darparu neu rywfaint ohoni. Yng ngoleuni hyn, byddai'n ddefnyddiol pe gallech egluro i ni pam y credwch fod y wybodaeth a ddarparwyd gennych yn gyfrinachol. Os byddwn yn cael cais i ddatgelu'r wybodaeth, byddwn yn ystyried eich esboniad yn llawn, ond ni allwn warantu y byddwn yn gallu ei chadw'n gyfrinachol ar bob achlysur. Ni chaiff ymwadiad cyfrinachedd awtomatig a gynhyrchir gan eich system TG ei ystyried yn gyfrwymol ar yr Adran ynddo'i hun.

Cynhelir yr ymgynghoriad hwn yn unol â'r "Egwyddorion Ymgynghori" sydd ar gael yn: <https://www.gov.uk/government/publications/consultation-principles-guidance>.

Os bydd gennych unrhyw sylwadau neu gwynion am y broses ymgynghori, dylech eu hanfon at:

Consultation Coordinator,  
2nd Floor,  
Foss House,  
Kings Pool,  
1-2 Peasholme Green,  
YORK  
YO1 7PX

Neu anfonwch neges e-bost i: [consultation.coordinator@defra.gov.uk](mailto:consultation.coordinator@defra.gov.uk).

Diolch am eich cymorth gyda'r mater hwn. Os bydd gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch â ni.

Yn gywir

Y Tîm Plaleiddiaid  
[pesticides@defra.gov.uk](mailto:pesticides@defra.gov.uk)

**Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig**